Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pwy sy'n gymwys am Fathodyn Glas?

Ionawr 2021

Darllenwch y daflen hon yn ofalus i gael gwybod a ydych chi'n gymwys am Fathodyn Glas. Cofiwch y gall unrhyw un sy'n rhoi manylion neu dystiolaeth ffug i wneud cais gael dirwy o £5,000.

I gael Bathodyn Glas, rhaid bodloni'r amodau. Bydd y bathodyn yn rhoi mwy o annibyniaeth i bobl trwy eu helpu i gael y gorau o wasanaethau a chyfleusterau. Gallant fod yn yrrwr neu'n deithiwr.

Nid oes rhaid i berson yrru er mwyn cael gwneud cais am Fathodyn Glas. Ar gyfer unigolion mae'r Bathodyn a gall gael ei ddefnyddio mewn unrhyw gar y bydd yr unigolyn yn teithio ynddo.

Yng Nghymru, gall **Unigolyn** yn un o'r **categorïau** canlynol fod yn gymwys i gael Bathodyn Glas:

Awtomatig	**Tudalen 3**
Yn ôl Disgresiwn	**Tudalen 4 & 5**
Dros Dro	**Tudalen 6**

Gall **Sefydliad** fod yn gymwys i gael Bathodyn Glas os yw'n gofalu am bobl anabl neu'n cludo pobl anabl fyddai'n gymwys i gael Bathodyn Glas eu hunain.

Yng Nghymru ni chodir tâl am Fathodyn Glas. Nid yw gwefannau sy'n codi tâl i wneud cais am Fathodyn Glas yn ddarparwyr dilys a dylid eu hosgoi.

Cymwys yn Awtomatig

Gall unigolyn fod yn gymwys am fathodyn heb asesiad os yw'n derbyn un o'r Budd-daliadau Anabledd canlynol neu os oes ganddynt nam ar eu golwg.

- **Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) ar y lefelau canlynol:**
  - 12 pwynt ar gyfer Cynllunio a Dilyn Taith.
  - 8 pwynt neu fwy ar gyfer symudedd.
- **Elfen Symudedd Cyfradd Uwch y Lwfans Byw i'r Anabl (y Gyfradd Uwch).**

- **Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog, Tariff 1-8 (cynhwysol) gan gynnwys Anhwylder Meddwl Parhaol o dan Tariff 6.**
- **Atodiad Symudedd Pensiynwyr Rhyfel.**

- **Wedi'u 'Cofrestru'n ddall' neu â 'nam difrifol ar eu golwg'.**

Tystiolaeth Foddhaol: Llythyr dyfarnu gwreiddiol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer un o'r Budd-daliadau hyn.

Tystiolaeth Foddhaol: Llythyr dyfarnu gwreiddiol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Tystiolaeth Foddhaol: Un o'r canlynol – Adroddiad Offthalmolegydd. Ffurflen CV1/BD8 yn cadarnhau bod gan yr ymgeisydd 'nam difrifol ar y golwg (Dall)'. Wedi'i gofrestru â Nam ar y Golwg gyda'r awdurdod lleol ar lefel 'ddifrifol'.

» Trowch at dudalen 8 i weld sut i wneud cais.

Cymwys yn ôl Disgresiwn

Gall amgylchiadau penodol wneud unigolyn yn gymwys er nad yw'n derbyn y budd-daliadau a restrir ar dudalen 3. Sef:

- **Methu cerdded o gwbl. Anhawster mawr i gerdded. Nam sylweddol ar symudedd:**
  - Person dros ddwy flwydd oed sydd ag anabledd parhaol a difrifol. Mae hyn y golygu nad yw'n gallu cerdded neu'n cael anhawster mawr i gerdded. Mae angen cymhorthion cerdded neu hyd yn oed ocsigen arno i gerdded ychydig megis hanner hyd cae pêl-droed.

Tystiolaeth Foddhaol:
Bydd angen mwy o wybodaeth ar yr awdurdod lleol i gefnogi hawliad. Dylai ymgeiswyr siarad â'r awdurdod lleol am hyn yn gyntaf a pheidio â gofyn am lythyr gan y meddyg teulu.

- **Plentyn o dan dair blwydd oed sydd â chyflwr meddygol sy'n golygu:**
  - Bod angen offer meddygol mawr na ellir ei gludo gyda'r plentyn heb anhawster wrth law bob amser.
  - Bod rhaid iddo bob amser fod yn agos at gerbyd i gael triniaeth feddygol a all achub bywyd ar gyfer y cyflwr hwnnw neu er mwyn iddo allu teithio'n gyflym yn y cerbyd i rywle y gellir rhoi triniaeth o'r fath.

Tystiolaeth Foddhaol:
Llythyr gan Bediatregydd.

- **Anabledd difrifol yn y ddwy fraich**
  - Person sydd, o ganlyniad i'r anabledd, yn methu â defnyddio, neu'n cael anhawster difrifol i ddefnyddio unrhyw fath o fesurydd parcio. Neb ond y sawl sy'n gyrru gaiff ddefnyddio'r bathodyn hwn.

Tystiolaeth Foddhaol:
Trwydded yrru sydd â chôd 40 (llyw wedi'i addasu) neu 79 (cerbydau â nodweddion arbennig).

- **Nam Gwybyddol Difrifol**
  - Person nad yw'n gallu cynllunio na ddilyn unrhyw daith heb gymorth rhywun arall.

Tystiolaeth Foddhaol:
Un o'r canlynol – Apwyntiad Clinig Cof. Ar gofrestr anabledd dysgu'r awdurdod lleol. Llythyr gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n rhoi triniaeth.

- **Salwch angheuol sy'n cyfyngu'n sylweddol ar symudedd.**

Tystiolaeth Foddhaol:
Ffurflen DS 1500 neu lythyr ategol oddi wrth nyrs Macmillan neu Tenovus.

» Trowch at dudalen 8 i weld sut i wneud cais.

Cymwys Dros Dro

Caiff unigolyn wneud cais am fathodyn 12 mis dros dro os yw'n aros am driniaeth ar gyfer salwch neu anaf difrifol neu'n gwella ar ôl salwch neu anaf difrifol. Dyma rai enghreifftiau:

- Gwella ar ôl torri asgwrn coes yn ddifrifol ac yn defnyddio fframiau a phiniau, am fwy na blwyddyn.
- Aros am driniaeth i gael e.e. clun, pen-glin newydd, neu'n gwella ar ôl cael triniaeth o'r fath sy'n cyfyngu'n ddifrifol ar symudedd.
- Gwella ar ôl strôc neu anaf pen sy'n effeithio ar ei symudedd.
- Gwella ar ôl trawma i'r cefn sy'n effeithio ar symudedd.
- Yng nghanol cael triniaeth feddygol e.e. ar gyfer canser, sy'n effeithio ar ei symudedd.

Tystiolaeth Foddhaol: Yn gyffredinol bydd yr awdurdod lleol yn cyfeirio ymgeisydd at gael asesiad annibynnol i weld a yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer bathodyn dros dro.

» **Trowch at dudalen 8 i weld sut i wneud cais.**

Nid yw'r rhesymau isod ar eu pen eu hunain yn ddigon i gael Bathodyn Glas:

- Beichiogrwydd.
- Lwfans Byw i'r Anabl - Cyfradd Is.
- Lwfans Gweini.
- Anabledd mewn un fraich.
- Problemau â'r bledren neu'r coluddyn megis clefyd Crohn neu Colitis.
- Cyflyrau dros dro megis torri neu droi braich neu goes lle mae angen ei roi mewn cast am wythnosau neu fisoedd.
- Triniaeth ar gyfer salwch neu anaf nad yw'n cael effaith fawr ar symudedd.

Sut i gyflwyno cais am Fathodyn Glas

Gallwch gyflwyno cais ar-lein gan ddefnyddio Gwasanaeth Digidol y Bathodyn Glas (BBDS) drwy'r ddolen hon **www.gov.uk/apply-blue-badge**. Caiff eich cais ei anfon i'ch awdurdod lleol fel y gallant ei brosesu.

Gallwch gyflwyno cais yn uniongyrchol drwy'ch awdurdod lleol. Bydd gwefan eich awdurdod lleol yn cynnwys manylion ynghylch sut y gallwch gyflwyno cais.

Pan gaiff cais ei wrthod

Mae penderfyniad yr awdurdod lleol ynghylch cymhwystra yn derfynol. Os bydd rhagor o dystiolaeth ar gael, fodd bynnag, gall ymgeisydd ofyn i'r awdurdod lleol ailystyried y cais.

Dylech gyfeirio unrhyw gwynion am y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais i'r awdurdod lleol fel y gall ddilyn ei weithdrefnau ar gyfer cwynion a monitro.

Nid oes gan **Lywodraeth Cymru** y pŵer i ymyrryd yn y broses o wneud penderfyniadau os caiff cais ei wrthod.

I gael rhagor o gopïau o'r daflen hon anfonwch e-bost at **CustomerHelp@gov.wales** neu ffoniwch **0300 0604400**.

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG41785 ISBN digidol: 978-1-80082-656-4